Ymweliad i Ironbridge – Man Geni'r Chwyldro Diwydiannol

Ar ddydd Mercher 16eg Mai, aeth 33 o aelodau Grŵp Hanes Deganwy a'i ffrindiau ar ymweliad i Ironbridge yn Swydd Amwythig, safle Treftadaeth y Byd a man geni'r Chwyldroi Diwydiannol.

Ein galwad cyntaf oedd i weld Amgueddfa'r Ceunant a oedd yn wreiddiol yn Warws Hafren Cwmni Coalbrookdale, un o ddeg o amgueddfeydd sy'n rhan o Ymddiriedolaeth Amgueddfa Ironbridge. Gothig y Dadeni yw'r dyluniad pensaernïol, gyda thyrrau cul wedi'u harlunio gyda dolenni saeth mewn siâp croes, oedd mewn gwirionedd yn cuddio simnai. Ar lan yr afon ceir diorama 12 medr o hyd yn dangos sut oedd yr Afon Hafren yn edrych pan oedd yn ei anterth diwydiannol (tua 1796). Fe welir marciau yn dangos lefelau llifogydd diweddar ar ffenestri a muriau'r adeilad, a'r gwaethaf ohonynt yn cyrraedd pen uchaf y ffenestri! Mae drysau'r warws yn arwain at fasn yr afon lle gellir gweld rhigolau hen dramffordd gul a ddefnyddiwyd i gludo nwyddau.

Canolbwynt ein hymweliad oedd y Bont Haearn sydd ychydig o funudau cerdded o'r amgueddfa gan ddilyn yr afon. Roedd y tywydd yn garedig a gwelsom y dref a'r bont yn ei holl ysblander. Roedd y bont yn cael ei atgyweirio am gost o £3.6 miliwn, i'w gwblhau erbyn Tachwedd 2018.

Yn anffodus roedd y bont wedi'i gorchuddio gyda sgaffaldiau a chynfasau, ond fe grëwyd lle i gerdded ar hyd ochr y bont i alluogi ymwelwyr cael cipolwg o'r gwaith oedd yn mynd ymlaen. Mi fyddai hwn o'r golwg fel arall. Mae tywyswyr o English Heritage ar gael i esbonio'r gwaith sy'n mynd ymlaen ac i ddangos sut fydd y gwaith metel cywrain a'r rhannau o'r bwa a ddifrodwyd neu a gollwyd yn cael eu hadfer.

Roedd yn bosibl i groesi'r bont i weld y Dollfa lle arddangoswyd nifer o erthyglau yn disgrifio strwythur y bont. Roedd un o'r erthyglau yn dangos rhestr o'r tollau a dalwyd i groesi';r bont. Roedd pawb yn gorfod talu.... hyd yn oed y teulu Brenhinol.



Y lleoliad nesaf oedd Amgueddfa Haearn Coalbrookdale yn yr hyn a fu'r Warws Mawr. Dyma'r lle y bu i dechnegau chwyldroadol Coalbrookdale ei wneud y gwaith haearn enwocaf yn y byd. Yma cawsom wybod sut y bu i'r broses o wnaed haearn cael ei ddatblygu a sut y bu i haearn Coalbrookdale newid cwrs y byd.

Mae nifer o arddangosion o haearn addurnedig a gynhyrchwyd yn lleol i'w gweld yma, yn cynnwys 'Boy and Swan Fountain' o Arddangosfa Fawr 1851, a'r 'Deerhound Table' o Arddangosfa Ryngwladol Paris 1855. Mae eitemau eraill yn yr arddangosfa yn cynnwys potiau coginio,, tegellau, fframiau tân a dodrefn stryd o haearn bwrw Coalbrookdale.

Y tu allan i'r amgueddfa fe welir olion o'r ffwrnais chwyth chwyldroadol a elwir yr Hen Ffwrnais. Cafodd y ffwrnais hon ei yrru gan rym dwr. Ym 1709, perffeithiwyd y gwaith o fwyndoddi haearn gyda chôc yn hytrach na siarcol gan gynhyrchu gwell haearn na chynhyrchwyr eraill ar y pryd.



Yma fe ymdoddwyd yr haearn ar gyfer y bont haearn gyntaf yn y byd gan ŵyr Abraham Darby (Abraham Darby 3ydd). Mae capanau drysau'r ffwrnais yn cynnwys y geiriau "Abraham Darby 1777" a "1683" yn dangos bod ffwrnais wedi cynyddu mewn maint dros y blynyddoedd wrth i'r galw am haearn Coalbrookdale gynyddu.

Ar y lawnt o flaen yr Hen Ffwrnais cawsom ein hatgoffa yn ingol am Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918. Caniataodd y Ddeddf i ferched pleidleisio mewn etholiadau seneddol am y tro cyntaf. Mae'r silwetau hyn yn cynrychioli 37 o ferched a lwydodd i ennill yr hawl i bleidleisio allan o oddeutu 160 o weithwyr yn niwydiannau ceramig a haearn ar draws Ceunant Ironbridge ym 1918, yn cynnwys; Issabella Edwards (63) – Gwneuthurwraig Pibau, Emma Austin (62) - Paentwraig, a Mary Oakes (48) - Dynes Warws.

Y trydydd lleoliad oedd Bwyty Melin Brwcws, Dinbych, lle cawsom wledd o 3 cwrs a baratowyd ac a weinyddwyd gan staff hynod o amyneddgar. Ar ôl diwrnod o grwydro o amgylch Ironbridge a'i amgueddfeydd, roedd yn ddiweddglo pleserus iawn i ddiwrnod dymunol dros ben.

Diolchwyd i Ifor ag Angela am drefnu'r ymweliad i'r arddangosfa, trefnu'r bws, y pryd o fwyd a'r tywydd ardderchog ar y diwrnod.

Trefor Price – Mai 2018